

CYNGOR BRO PONTARFYNACH

Nos Iau 4ydd Chwefror, 2016

Cynhaliwyd cyfarfod yn Ysgol Mynach gyda'r canlynol yn bresennol:

Rhodri Jenkins (Cadeirydd); Brython Davies, Eluned Evans, Jane Hopkins, Alun Jenkins, Phil Lloyd, a'r Cyng. Rhodri Davies.

1. YMDDIHEURIADAU

Elise Powell

2. COFNODION 14eg Ionawr, 2016

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir. Cynigiwyd cywirdeb gan Alun Jenkins ac eiliwyd gan Brython Davies.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION

- (a) Dŵr yng Nghwmystwyth ger Gate Cottage
Adroddwyd fod Bryan Thomas, Swyddog o'r Cyngor Sir wedi ymweld â'r safle ac yn ymwybodol o'r sefyllfa.
- (b) Blychau Ffon BT
Ni dderbyniwyd ymateb hyd yn hyn yn ymwneud â phwrcasu'r blychau ffôn. Y Clerc i ddilyn lan.
- (c) Materion angen dilyn lan gyda Chyngor Sir Ceredigion gan na dderbyniwyd ymateb:

Yr angen i gael y peiriant ysgubo (sweeper) i lanhau'r ffyrdd a'r palmant ym Mhontarfynach.

Coed ymyl y chwarel gyferbyn â'r llyn yn Nhrisant yn ymestyn allan i'r ffordd.

Coeden leylandii yn ymestyn allan i'r palmant gyferbyn a'r Gofgolofn ym Mhontarfynach.

Wal ym Mhontartwll, Cwmystwyth wedi cwmpo ers peth amser a'r Clerc i gysylltu gyda'r Comisiwn Cyfoeth Cymru i ymholi beth yw'r sefyllfa.

Angen atgyweirio'r arwyddion ffyrdd ger y Gof Golofn.

Dail coed wedi gwasgaru ar y ffordd yn Nhrisant.

Y ffordd yn rhoi ar y llaw dde wrth fynd mewn i New Row o ochr Lletysynod.

Ffordd o Bontarfynach i Gwmystwyth, yr angen i barhau i ofyn i'r Cyngor Sir i ddodi rhwystrau damwain ar ochr y ffordd yn y man ble mae tâp oren wedi cael eu ddodi ers peth amser.

Tyllau peryglus ar y ffordd ger Lletysynod, Ar Rhiw Ysgoldy Goch a thu allan i Ysgoldy Goch yng Nghwmystwyth.

Deallir fod y twll ger Lletysynod wedi ei llanw ynghyd a rhai o'r tyllau yng Nghwmystwyth ond bod angen sylw brys ar y gweddill. Y Clerc i dynnu sylw'r Cyngor Sir.

- (ch) Ymholiad am balmant tu allan i Ysgol Mynach.
Derbyniwyd ymateb gan Brynmor Hughes, Peiriannydd Cynorthwyol Cynnal a Chadw'r Cyngor Sir yn nodi fod y palmant tu allan yr ysgol yn ddigonol o ran maint safonol sef 125mm a pe byddid yn gostwng y palmant yn y lleoliad yma byddid yn colli un o'r llefydd parcio prin. Nodwyd hefyd fod yna reiliau wedi doddi tu allan gat yr ysgol ac yn cyfeirio cerddwyr a'r anabl at balmant isel ymhellach i lawr y llwybr troed ac sydd i ffwrdd o draffig.
- (d) Arwyddion 'damwain' ar y ffordd o Bontarfynach i Gwmystwyth angen cael eu casglu – deallir bod Cyng. Rhodri Davies wedi gwneud trefniadau i gasglu'r arwyddion.
- (dd) Rhoddion
Derbyniwyd ohebiaeth o werthfawrogiad wrth yr Ambiwllans Awyr am y rhodd ariannol.

4. GOHEBIAETH

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:

- (a) Ymgynghori ar Amcanion Gwella 2016-17 gan y Cyngor Sir
- (b) Cynllun Mabwysiadu Llwybrau
Ymholiad gan Gyngor Sir Ceredigion i ymholi am lefel diddordeb y Cyngor Bro at gynllun Mabwysiadu Llwybrau h.y. cymryd cyfrifoldeb o wneud ychydig o waith cynnal a chadw ar lwybrau'r ardal. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd na fyddai diddordeb gan y Cyngor Bro mewn Cynllun Mabwysiadu Llwybrau.
- (c) Taliadau gan Gyngor Sir Ceredigion am Gynllun Ail-gylchu ym Mhontarfynach ar gyfer:
£26.40 am Chwarter 2 (Gorffennaf-Medi 2015) a
£27.80 am Chwarter 3 (Hydref-Rhagfyr 2015)
- (ch) Ymholiad am sylwadau wrth Gyngor Sir Ceredigion am gynlluniau symud gwrych ger LletySynod i wneud gwelededd yn well ar y groes ffordd wrth ddod o gyfeiriad Trisant. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cynlluniau ond nodi hefyd fod yna broblem o ran gwelededd i'r chwith wrth gwrdd a'r groesffordd o gyfeiriad Trisant gan ofyn i'r Cyngor Sir edrych ar sefyllfa yr ochr yna hefyd.
- (d) Gohebiaeth adnewyddu aelodaeth gan Un Llais Cymru am dâl o £70.00 y flwyddyn. Cytunwyd i adnewyddu'r aelodaeth. Cynigiwyd y taliad gan Eluned Evans ac eiliwyd gan Phil Lloyd.

5. CYLLID

Rhoddion 2016

Cytunwyd i drosglwyddo rhodd o £30.00 i Grŵp Ti a Fi Ysgol Mynach. Cynigiwyd y taliad gan Jane Hopkins ac eiliwyd gan Phil Lloyd.

6. UNRHYW FATER ARALL

- (a) Cyfeiriwyd fod angen sylw ar y ffordd fynydd o Gwmystwyth i Rhaeadr ar ochr Powys ar y troad ffordd lan at Glanyrein ble mae dwr yr afon yn llifo ar draws y ffordd gan erydi'r ffordd. Pe na roddir sylw i'r mater yma ar frys bydd y broblem yn mynd yn fwy. Y Clerc i gysylltu gyda Chyngor Sir Powys i dynnu sylw at y broblem gan fod y broblem yma yn effeithio trigolion Cwmystwyth a'r ardal.
- (b) Ar y ffordd fynydd hefyd mae yna broblem ble mae'r ffordd yn mynd yn gul ger Glynderi. Nodir fod gyrwyr yn gorfod tynnu fewn i ochr y ffordd gan wneud niwed i deians y ceir.
- (c) Twll dwfwn ar y ffordd rhwng Bontarfynach a Pisgah, ger y fynedfa i Aberffwd.

Y Clerc i dynnu sylw'r Cyngor Sir at yr uchod.

7. DYDDIAD CYFARFOD NESAF

Nos Iau 3ydd Mawrth, 2016 yn Ysgol Mynach am 7.30 y.h.